| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **16 Gorffennaf 2015** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am reoli Iechyd a Diogelwch yn CSDd fel y gwelir o safbwynt y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth ynglŷn â'r diweddariad blynyddol ar reoli Iechyd a Diogelwch yn CSDd

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn adolygu'r adroddiad a gwneud sylwadau ar weithgareddau a sylwadau'r tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. <u>Summary</u>

4.1.1 Mae gweithgareddau'r tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cynnwys nifer o weithfannau gweithredol CSDd lle yr ydym yn parhau i weld gwelliannau o ran ymwybyddiaeth a rheoli Iechyd a Diogelwch. Pan nodir gwendidau, bylchau neu broblemau yn y systemau neu brosesau rheoli rydym yn darparu'r gefnogaeth, arweiniad a hyfforddiant hanfodol hyd eithaf yr adnoddau sydd ar gael gennym.

4.1.2 Mae adborth Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn awgrymu eu bod yn ystyried rheolaeth diogelwch CSDd yn gadarnhaol ond gall un methiant sylweddol newid sut yr ydym yn cael ein hystyried gan y rheoleiddwyr a gallai amharu ar hygrededd CSDd. Felly er ein bod mewn sefyllfa gadarnhaol yn gyffredinol ni ddylem laesu dwylo ac mae'n rhaid i ni barhau i arwain a chefnogi proses wella Iechyd a Diogelwch.

4.1.3 Mae'r data craidd ar gyfer damweiniau / digwyddiadau ar gyfer mis Ebrill 2014 i fis Mawrth 2015 yn nodi bod nifer y digwyddiadau yn dangos gostyngiad o 2013/14. Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu'r cyngor yr ydym yn ei ddarparu i ysgolion fel y cyfrannydd mwyaf i'r niferoedd ac mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol bod y posibilrwydd o dan-adrodd yn bresennol bob amser. Mae digwyddiadau Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) wedi

gostwng hefyd yn rhannol oherwydd y newidiwyd gofynion adrodd RIDDOR ar ddiwedd 2013

- Cyfanswm nifer y digwyddiadau 2013\2014 = 1741 2014\2015 = 1440
- Digwyddiadau lefel RIDDOR 2013\2014 = 21 2014\2015 = 9

4.1.4 Yn ystod y cyfnod cafwyd un digwyddiad sylweddol a arweiniodd at ymchwiliad llawn gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Anafwyd gweithiwr casglu gwastraff domestig yn ddifrifol pan gafodd ei ddal yn y peiriant codi bin ar gefn y cerbyd. Casglodd ymchwiliad Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch bod system rheoli diogelwch CSDd yn ddigonol, a nodweddion dynol oedd achos y digwyddiad. Ni chymerwyd unrhyw gamau yn erbyn CSDd a derbyniwyd adborth cadarnhaol gan y swyddog ymchwilio. Mae'r unigolyn a anafwyd wedi cychwyn trafodion ymgyfreitha sy'n cael eu trin gan ein hyswirwyr.

4.1.5 Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi darparu nifer o gyrsiau hyfforddi ac wedi cyflawni nifer o weithgareddau monitro safle.

4.1.6 Mae rheoli diogelwch tân yn defnyddio tua 20% o amser y tîm. Mae'r holl eiddo hysbys wedi bod yn destun asesiad Tân ac fe gefnogir yr adolygiadau parhaus gan y gwasanaethau eiddo ac yn aml caent eu harchwilio gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac rydym wedi sefydlu perthynas waith dda gyda nhw.

4.1.7 Mae hyfforddiant a datblygu gyrwyr yn defnyddio tua 20% o'r amser sydd ar gael i'r tîm. Offer, bysiau mini, gyrru cyffredinol, tystysgrif cymhwysedd proffesiynol (CPC) yw'r elfennau craidd a ddarperir.

4.1.8 Er bod cynllun gwaith blynyddol wedi'i ddatblygu ar gyfer y tîm mae cyfran sylweddol o'n gwaith yn parhau i fod yn adweithiol lle y byddwn yn ymateb i ddigwyddiadau a cheisiadau am gymorth. Mae hon yn elfen bwysig o'r hyn a wnawn ac yn defnyddio tua 25% o'n hamser.

<u>4.2. Hyfforddiant 2013 / 2014</u>

4.2.1 Mae holl aelodau cyfredol y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi derbyn cymhwyster "Paratoi i Addysgu mewn Dysgu Gydol Oes" i gefnogi hygrededd ein darpariaeth hyfforddiant helaeth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi darparu

- Asesiad risg ac ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch cyffredinol
- Rheoli diogel yng Nghyngor Sir Ddinbych. (Cwrs deuddydd)
- Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch. Egwyddorion ac arferion rheoli diogelwch
- Asesiad Risg. Gweithdy un diwrnod ymarferol.
- Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol i Yrwyr (CPC) ar gyfer gyrwyr proffesiynol
- Ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân.
- Codi a symud pethau'n gorfforol
- Rheoli diogelwch mewn cartrefi gofal.
- Egwyddorion rheoli diogelwch wrth weithio ar eich pen eich hun
- Sylweddau peryglus, lleoedd cyfyng, diogelwch adeiladu, cyrsiau byr

4.2.2 Mae cryn dipyn o gyngor gyrru a hyfforddiant i yrrwr yn cael ei roi gan ein hymgynghorydd Risg Ffyrdd. Mae'r gefnogaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar yrwyr fflyd, ond rydym fodd bynnag, yn cynnig cefnogaeth yn ôl y galw.

- Offer (tractor, ATV, Llwythwr Telesgopig, Fforch Godi, HIAB) = 42

- Asesiadau a phrofion D1 (bws mini) =48
- Asesiadau gyrru ar gyfer cerbydau amrywiol heblaw bws mini =26
- Ymweliadau gyrru cyffredinol = 17
- CPC Gyrrwr = 5

Cyfansymiau

- Cyrsiau hyfforddi Iechyd a Diogelwch = 52
- Hyfforddiant Diogelwch Tân =13
- Cwrs Hyfforddi Gyrrwr = 138

4.3. <u>Monitro gan Iechyd a Diogelwch Corfforaethol</u>

4.3.1 Monitro systemau diogelwch yn y gweithle yn cael ei gyflawni gan dîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fel rhan o asesiadau systemau a gynlluniwyd. Isod ceir rhai enghreifftiau o weithgareddau monitro a gyflawnwyd gan y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn 2014/2015

- Rheoli bacteria Legionella mewn systemau dŵr mewn tai cymdeithasol
- Gwasanaethau Eiddo “rheoli bacteria Legionella mewn systemau dŵr”
- Trefniadau diogelwch ffatri cyffredinol Gofal Iechyd Cefndy
- Systemau gweithwyr unigol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Grŵp prosiect mawr priffyrdd
- Strydwedd (ar y gweill)
- Ysgol Tir Morfa
- Depo Fflyd – (Gweler Atodiad 3 ar gyfer mater parhaus gyda Plastecowood)
- Gweithdai DaT i Ysgolion
- Prosesau taith ddiogelwch ysgolion
- Gweithgareddau monitro = tua 48

4.3.2 Dim ond un elfen o’r broses fonitro yw monitro ar y lefel gorfforaethol. Cynghorir uwch reolwyr a rheolwyr atebol bod yn rhaid iddynt barhau i fonitro gweithgareddau o dan eu rheolaeth.

4.4. <u>Diogelwch Tân</u>

Cynhelir asesiadau risg tân (FRA) a'u hadolygu’n fewnol ar holl gyfleusterau CSDd. Mae rhaglen hyblyg o adolygiadau FRA ar waith. Mae hyblygrwydd y rhaglen yn ein galluogi i ymateb yn adweithiol i geisiadau gan y rheoleiddiwr neu o ffynonellau eraill. Mae adborth gan y Gwasanaeth Tân, fel y rheoleiddiwr, yn parhau i fod yn bositif. Cynhaliwyd 31 o adolygiadau asesu tân gyda NWFRS yn cynnal 8 archwiliad gan arwain at 6 hysbysiadau diffyg a ddatryswyd yn gyflym gan olygu na chymerwyd unrhyw gamau pellach.

4.5. <u>Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch</u>

Rydym wedi derbyn nifer o ymholiadau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

- Cynnal a chadw diogelwch nwy.
- Anaf i ddisgybl ysgol uwchradd gan ddefnyddio turn pren
- Gofynnodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i ni ddarparu copïau o’r systemau diogelwch a ddefnyddir yn ein busnes casglu gwastraff i Gyngor Sir y Fflint yn ddiweddar gan eu bod yn ystyried ein systemau fel rhai sy’n arddangos arfer gorau.

4.6. Crwner

Ymatebwyd i gais crwner i edrych ar bromenâd Prestatyn yn dilyn achos o syrthio a arweiniodd at farwolaeth. Roedd datblygiad yr ymateb yn golygu taith ddiogelwch o ffin i ffin a chymeradwywyd yr ymateb gan ein hadrannau cyfreithiol ac yswiriant cyn ei gyhoeddi. Adroddiad ynghlwm fel Atodiad 2.

4.7. Clwb Hwylio'r Rhyl – Wal y Cei a Iard Gychod

Codwyd pryderon ynglŷn â diogelwch strwythurol wal y cei a'r iard gychod ac mae CSDd, fel y landlord, wedi ymateb yn briodol. Gweler Atodiad 4 ar gyfer nodyn briffio a anfonwyd at y Cyngor

4.8. Cofrestr Amddiffyn Staff (CAS)

Mae hon yn broses i'n galluogi i dynnu sylw at unigolion neu adeiladau lle yr ystyrir fod bygythiad Iechyd a Diogelwch sylweddol ar weithwyr Cyngor Sir Ddinbych. Mae CAS ar y fewnrwyd wedi bod yn weithredol am 18 mis. Mae'r system a'r broses ategol yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Mae'r system yn adnodd defnyddiol sydd ar gael ar y fewnrwyd i holl weithwyr cyflogedig CSDd.

4.9. Ysgolion

Gall ysgolion ddefnyddio eu strwythurau rheoli o bell a'r cyllidebau dirprwyedig mewn modd sy'n lleihau dylanwad canolog. Rydym yn ceisio lliniaru'r risgiau i bobl mewn ysgolion ac i CSDd yn gorfforaethol drwy gynnig amryw o gyrsiau hyfforddi, dogfennau arweiniad, cefnogaeth bersonol ac ymweliadau safle.

4.10. Strwythur y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Strwythur y tîm ar hyn o bryd yw:

- 1 x Rheolwr Tîm, 1 x Uwch Ymgynghorydd, 1 x Ymgynghorydd, 1 x Ymgynghorydd Risg Ffyrdd, 1 x Swyddog Gweinyddol (rhan amser – 22 awr)

4.11. Adrodd am Ddamweiniau / Digwyddiadau

Mae modd cael mynediad at y ffurflen adrodd ar ddamweiniau a digwyddiadau CSDd ar y fewnrwyd. Rheolir y broses gan y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, caiff yr holl ddata ei storio'n electronig ar y system EDRMS. Mae crynodeb o ddigwyddiadau a adroddwyd yn Atodiad 1. Mae holl ddigwyddiadau lefel RIDDOR yn cael eu harchwilio'n llawn gan y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Ymchwilir digwyddiadau llai i lefel a ystyrir yn briodol gan y tîm

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r wybodaeth yn cyfrannu at wybodaeth a dealltwriaeth y Cyngor o drefniadau sydd ar waith i reoli Iechyd a Diogelwch.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gost ychwanegol wedi'i nodi gyda'r wybodaeth. Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cefnogi holl wasanaethau CSDd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Mae'r adroddiad yn ddiweddariad gwybodaeth ynglŷn â gweithgareddau cyfredol ac nid yw'n cael unrhyw effaith andwyol ar gydraddoldeb. Gweler Atodiad 5.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Ymgynghorwyd gyda'r Cynghorydd Arweiniol ar gyfer Iechyd a Diogelwch, y Swyddog Arweiniol ar gyfer Iechyd a Diogelwch a'r Pennaeth Gwasanaeth

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae hwn yn adroddiad diweddaru ac nid oes unrhyw effaith ariannol ychwanegol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r adroddiad yn dangos cynnydd y cyngor o ran rheoli risgiau Iechyd a Diogelwch

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974, Adran 2 yn ei gwneud yn ofynnol rhannu gwybodaeth yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch ymysg eitemau eraill ac adolygu mesurau Iechyd a Diogelwch.

Mae erthyglau 6.1 a 6.3.4(b) yn amlinellu pŵer y pwyllgor archwilio mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch a monitro perfformiad.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
Ffôn: 01824 712541